CYFRANIAD CYRFF
LLYWODRAETHU
I WELLA YSGOLION

Canolfan Rhagoriaeth Cymru ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil
Adran Addysg, Prifysgol Cymru Abertawe,
Hendrefoelan, ABERTAWE SA2 7NB
Rhif Ffôn: 01792 518609 / 518610 Ffacs: 01792 518616

Rhagfyr 2004

CYFRANIAD CYRFF LLYWODRAETHU I WELLA YSGOLION

1 CYFLWYNIAD

Tybir yn gyffredinol y gall cyrff llywodraethu wneud cyfraniad gwerthfawr i wella ysgolion. Er mwyn profi'r ddamcaniaeth hon, mae'r ymchwil hon wedi dadansoddi barn Penaethiaid ysgolion y mae Estyn o'r farn eu bod yn "gwella", ynghylch y cyfraniad y mae eu cyrff llywodraethu'n ei wneud i wella'u hysgolion.

I'r diben hwn, ym mis Ionawr 2003 anfonwyd holiaduron i Benaethiaid y 163 ysgol yng Nghymru sy'n "gwella" (gweler Atodiad 1 am yr holiadur). Anfonwyd 86 holiadur wedi eu llenwi yn ôl (52%); o'r rhain roedd 52 o gyfanswm o 116 (45%) oddi wrth Benaethiaid Cynradd, a 33 o 52 (63%) oddi wrth Benaethiaid Uwchradd.

O ystyried y nifer gymharol fechan o ysgolion y mae'r astudiaeth yn ymwneud â nhw, mae'n anodd dod i gasgliadau pendant o'r canfyddiadau, er y gellir nodi tueddiadau cyffredinol y byddai'n werth ymchwilio ymhellach iddynt.

Y bwriad yw dilyn yr astudiaeth hon drwy ymchwilio ymhellach i enghreifftiau o arfer dda wrth lywodraethu ysgolion mewn ysgolion sy'n "gwella" ac ymweld ag ysgolion penodol i ystyried yn fanylach gyfraniad llywodraethwyr i wella ysgolion.

Defnyddir canlyniadau'r ymchwil hon i ddangos enghreifftiau o arfer dda, a roddir i AALlau i'w defnyddio gyda chyrff llywodraethu eu hysgolion. Yn ogystal, bydd Unedau Cefnogi Llywodraethwyr yr AALlau yn medru defnyddio canfyddiadau'r ymchwil wrth lunio eu rhaglenni hyfforddi llywodraethwyr, fel y caiff enghreifftiau o'r arfer dda a nodwyd eu lledaenu ledled cyrff llywodraethu Cymru.

2 DADANSODDIAD O'R YMATEBION

2.1 Maint yr Ysgolion

Cynradd (Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys Ysgolion Babanod a Iau)

O'r 52 ymateb a dderbyniwyd, roedd gan yr ysgol leiaf a gynrychiolwyd 30 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac roedd gan y fwyaf 700 o ddisgyblion ar y gofrestr.

Nifer y disgyblion ar y gofrestr: Ysgolion cynradd a samplwyd	Nifer yr ymatebion
1 – 90	8
91 – 180	12
181 – 240	12
241 – 360	9
361 +	11

Ffigur 1: Maint yr Ysgolion Cynradd

Uwchradd

O'r 33 ymateb a dderbyniwyd, roedd gan yr ysgol leiaf 342 disgybl ar y gofrestr, a 1,940 gan y fwyaf. Mae'r ysgolion wedi cael eu rhannu'n bum haen, gyda'r lleiaf yn cynnwys yr ysgolion hynny sydd â llai na 450 disgybl ar y gofrestr, a'r fwyaf â thros 1,350.

Nifer y disgyblion ar y gofrestr: Ysgolion uwchradd a samplwyd	Nifer yr ymatebion
1 – 450	3
451 – 750	6
751 – 1,050	6
1,051 – 1,350	11
1,351 +	7

Ffigur 2: Maint yr Ysgolion Uwchradd

2.2 Hyd Gwasanaeth y Penaethiaid

Roedd cryn amrywiaeth o ran hyd gwasanaeth y rhai a ymatebodd, gyda nifer fach o Benaethiaid Cynradd ac Uwchradd â llai na blwyddyn o brofiad. Ar ben arall y raddfa, roedd y Pennaeth Cynradd â'r gwasanaeth hwyaf wedi bod yn ei swydd ers 28 mlynedd, a'r Pennaeth Uwchradd â'r gwasanaeth hwyaf ers 23 mlynedd. Yn wir, roedd pum Pennaeth Cynradd a dau Bennaeth Uwchradd yn yr arolwg wedi gwasanaethu am fwy na 14 mlynedd.

Nifer y blynyddoedd yn Bennaeth	Nifer yr ymatebion	
	Cynradd	Uwchradd
Llai na 8	24	19
Mwy na 8	27	13
Heb gael ei nodi	1	1
Cyfanswm	52	33

Ffigur_3: Hyd Gwasanaeth – Penaethiaid

2.3 Nifer y Pwyllgorau

Roedd yr ymatebion a roddwyd i'r cwestiwn "Yn ogystal â chyfarfodydd y corff llywodraethu llawn, pa bwyllgorau llywodraethwyr anstatudol sydd gan eich ysgol?" fel a ganlyn:

Pwyllgorau llywodraethwyr anstatudol	Nifer yr ymatebion	
	Cynradd	Uwchradd
Dim	4	5
1	8	2
2	8	4
3	19	12
4	10	5
5	3	4
6	0	1
Cyfanswm	52	33

Ffigur 4: Pwyllgorau Anstatudol y Cyrff Llywodraethu

Roedd un o'r ysgolion uwchradd a ddywedodd nad oedd ganddi bwyllgorau anstatudol yn cynnal cyfarfodydd misol o'r corff llywodraethu llawn lle gellid trafod materion fel y cwricwlwm a chyllid a.y.b. yn fanwl.

Yn y sectorau Cynradd ac Uwchradd, er bod enghreifftiau o ysgolion sydd â rhwng dim un a chwe phwyllgor llywodraethwyr (chwech mewn un ysgol uwchradd), tri yw'r nifer a geir amlaf.

Mae'n ddiddorol nodi wrth ystyried y mathau o bwyllgorau anstatudol mai'r tri sydd amlycaf o ran bod yn fwyaf poblogaidd yw *Cwricwlwm, Cyllid* a *Iechyd a Diogelwch* (gweler Ffigur 5 isod).

2.4 Mathau o Bwyllgorau

Mae nifer o broblemau'n codi wrth ystyried y mathau o bwyllgorau a sefydlir gan gyrff llywodraethu ysgolion, a'r ddwy amlycaf yw:

- Dull enwi – Mae gan wahanol gyrff llywodraethu wahanol enwau ar bwyllgorau sydd â'r un swyddogaethau neu swyddogaethau tebyg, e.e. gall Pwyllgor Amgylchedd un bwrdd llywodraethu fod yn gwneud yr un math o waith â Phwyllgor Adeiladau a Thiroedd corff llywodraethu arall, a byddai Iechyd a Diogelwch bron yn sicr yn rhan o gyfrifoldebau'r ddau bwyllgor hyn.

- Un pwyllgor sy'n cwmpasu dau faes. Mae enghreifftiau o'r fath yn cynnwys Pwyllgor Adnoddau sy'n cynnwys cyllid, adeiladau a rheoli'r safle mewn un ysgol uwchradd, a Phwyllgor Materion Bugeiliol a'r Cwricwlwm sydd mewn un ysgol gynradd.

Ymdriniwyd ag anhawster dull enwi drwy osod pwyllgorau sy'n amlwg yn ymdrin â'r un pwnc o dan un pennawd, e.e. mae *cefnogaeth i ddisgyblion* wedi cael ei roi o dan *lles disgyblion*. Lle nad yw'n eglur o dan ba bennawd y byddai pwyllgor yn ymddangos yn fwyaf naturiol, e.e. *Polisïau*, neu lle mai dim ond un enghraifft o fath o bwyllgor sydd, e.e. *Marchnata*, mae pwyllgorau o'r fath wedi cael eu cynnwys o dan y pennawd *Eraill.*

Math o Bwyllgor	Nifer nad yw eu cyfrifoldebau'n cynnwys unrhyw faes arall (meysydd eraill)		Nifer y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys maes arall (meysydd eraill)	
	Cynradd	Uwchradd	Cynradd	Uwchradd
Cwricwlwm	27	18	2	4
Cyllid	29	21	7	5
Iechyd & Diogelwch /Adeiladau &'r Amgylchedd	32	18	4	2
Lles Staff	17	10	6	7
Lles Disgyblion	1	4	1	1
Polisi	2	-	1	-
AAA	3	-	-	-
Cymuned	2	5	-	1
Datblygu a Chynllunio Strategol	-	4	-	-
Clwb Cyn ac Ar ôl Oriau Ysgol	2	-	1	-
Eraill	11	7	-	-

Ffigur 5: Mathau o Bwyllgorau Anstatudol sydd gan Gyrff Llywodraethu

Fel y gellid disgwyl, *Cwricwlwm, Cyllid* a *Iechyd & Diogelwch/Cynnal a Chadw Adeiladau* yw'r pwyllgorau llywodraethwyr sy'n digwydd amlaf o bell ffordd. Mewn gwirionedd, mae 16 ysgol uwchradd a 19 ysgol gynradd yn dweud bod ganddynt bob un o'r tri phwyllgor llywodraethwyr yma, naill ai ar wahân neu wedi eu cyfuno â meysydd eraill, ac mae gan 10 ysgol uwchradd a 14 ysgol gynradd ddau ohonynt.

Mae hefyd yn ddiddorol nodi nifer y pwyllgorau hybrid sy'n cwmpasu mwy nag un maes. Gall pwyllgorau o'r fath gael eu sefydlu'n unswydd er mwyn trafod pynciau y mae cyrff llywodraethu yn teimlo bod angen iddynt eu trafod, ond nad oes gan aelodau amser i neilltuo un pwyllgor iddynt, neu gallant gynnwys ddau faes y mae llywodraethwyr o'r farn eu bod yn agos gysylltiedig, e.e. *Cwricwlwm* a *Cynllunio strategol.*

2.5 Amlder Cyfarfodydd y Pwyllgorau

Mae amseru cyfarfodydd y pwyllgorau'n amrywio o ysgol i ysgol, gyda rhai pwyllgorau'n cwrdd bob hanner tymor, rhai bob tymor, ayb. Yn wir, o fewn ysgolion mae'n aml yn digwydd bod amserlen cwrdd gwahanol bwyllgorau'n amrywio. Mae'n debyg nad yw hyn yn fwy nag adlewyrchiad o'r gwahanol ofynion y mae'n rhaid i ysgolion eu hwynebu a'r ffaith fod angen i Benaethiaid a llywodraethwyr fod yn hyblyg.

Amlder cyfarfodydd y Pwyllgorau	Nifer yr ysgolion	
	Cynradd	Uwchradd
Mae pob pwyllgor yn cwrdd bob hanner tymor	2	4
Mae pob pwyllgor yn cwrdd bob tymor	21	12
Mae pob pwyllgor yn cwrdd bob hanner blwyddyn	4	0
Mae pob pwyllgor yn cwrdd bob blwyddyn	0	0
Mae pob pwyllgor yn cwrdd pan fydd angen	4	2
Mae'r cyfnodau sydd rhwng cyfarfodydd y gwahanol bwyllgorau'n amrywio	17	10

Ffigur 6: Amlder cyfarfodydd Pwyllgorau'r Cyrff Llywodraethu

2.6 Ysgolion Cyfrwng Cymraeg

O'r ymatebion o'r sector Cynradd, roedd naw o ysgolion cyfrwng Cymraeg, roedd dwy yn ddwyieithog, ac roedd gan un ysgol uned cyfrwng Cymraeg.

O'r ymatebion o'r sector Uwchradd, roedd chwech o ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac un o ysgol ddwyieithog.

2.7 Ysgolion Gwirfoddol

Roedd chwe Ysgol Wirfoddol Gynradd. O ran yr ymatebion o'r sector Uwchradd, roedd tri o ysgolion Gwirfoddol, ac un o ysgol Sylfaen.

3 CANFYDDIADAU

Gofynnwyd i benaethiaid ddosbarthu cyfraniad eu corff llywodraethu i wella'r ysgol mewn deuddeg maes, er y gallent ychwanegu mwy pe dymunent. Cawsant ystod o bum pwynt ar gyfer eu dosbarthu, o *Defnyddiol iawn* i *Heb fod yn ddefnyddiol* (gweler Atodiad 1).

Mae'r categorïau *Defnyddiol iawn* a *Defnyddiol* wedi eu dynodi'n ymatebion "cadarnhaol", a'r categorïau *Cyfyng ei Ddefnyddioldeb* a *Heb fod yn ddefnyddiol* wedi eu dynodi'n ymatebion "negyddol".

Mae deuddeg maes cyfraniad cyrff llywodraethu wedi eu rhannu'n saith grŵp:

Grŵp 1 sy'n cynnwys meysydd yr ystyrir fel arfer mai nhw yw swyddogaethau pwysicaf cyrff llywodraethu ysgolion, h.y. *Cynllunio Strategol, Monitro a Gwerthuso*, a *Gosod Targedau.*

Grŵp 2 sy'n cwmpasu dau faes mwy neilltuol o weithgarwch llywodraethwyr, *Cyllid* a *Personél,* y cydnabyddir eu pwysigrwydd yn aml gan y ffaith fod llawer o gyrff llywodraethu'n sefydlu pwyllgorau i ymdrin â nhw'n benodol.

Grŵp 3 sy'n cynnwys *Clust i wrando ar syniadau* a *Cysylltiadau â'r gymuned.* Fel arfer mae llywodraethwyr yn cynrychioli'r gymuned, ac yn achos rhiant-lywodraethwyr, yn gynrychiolwyr go iawn o rannau penodol o'r gymuned. Gall eu barn am strategaethau a allai effeithio ar y gymuned fod yn werthfawr felly wrth addasu a chaboli cynigion.

Grŵp 4 gyda'r cyfuniad amlwg: *Paratoi am arolygiad* ac *Ymwneud yn y cynllun ôl-arolygiad*, er y gellid dadlau bod hefyd gysylltiad amlwg iawn a chlòs rhwng rôl llywodraethwyr yn paratoi'r cynllun ôl-arolygiad a chynllunio strategol cyffredinol a gosod targedau (Grŵp 1).

Grŵp 5 sy'n canolbwyntio'n unig ar *Rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd.*

Grŵp 6 sydd wedi ei neilltuo'n llwyr i faterion yn ymwneud â'r cwricwlwm, ac sy'n cynnwys *Anghenion Addysgol Arbennig.*

Grŵp 7 – *Eraill* sy'n hunanesboniadwy.

	CADARNHAOL			*NEGYDDOL*	
	Defnyddiol Iawn	**Defnyddiol**	**Yn Gymharol Ddefnyddiol**	**Cyfyng ei Ddefnyddioldeb**	**Heb fod yn ddefnyddiol**
Grŵp 1: Cynllunio Strategol	8	30	24	12	2
Monitro & Gwerthuso	12	38	19	16	-
Gosod Targedau	7	28	21	27	1
Grŵp 2: Cynllunio/Cyngor Ariannol	21	35	14	13	2
Materion yn ymwneud â phersonél	24	33	17	10	-
Grŵp 3 Clust i wrando ar Syniadau	30	32	16	5	-
Cysylltiadau â'r Gymuned	32	32	15	4	2
Grŵp 4: Paratoi am Arolygiad	16	21	27	15	1
Cynllun Ôl-arolygiad	9	23	28	15	7
Grŵp 5: Rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd	5	15	25	26	4
Grŵp 6: Meysydd eraill y cwricwlwm	2	16	25	15	5
Anghenion Arbennig	9	18	28	26	4
Grŵp 7: Eraill	12	3	-	1	-

Ffigur 7: Sut mae Penaethiaid yn Dosbarthu Cyfraniad Cyrff Llywodraethu – Pob Ysgol

	CADARNHAOL			*NEGYDDOL*	
	Defnyddiol Iawn	**Defnyddiol**	**Yn Gymharol Ddefnyddiol**	**Cyfyng ei Ddefnyddioldeb**	**Heb fod yn ddefnyddiol**
Grŵp 1: Cynllunio Strategol	4	18	13	10	1
Monitro & Gwerthuso	9	24	9	11	-
Gosod Targedau	4	17	12	18	1
Grŵp 2: Cynllunio/Cyngor Ariannol	15	20	7	9	1
Materion yn ymwneud â phersonél	15	20	9	8	-
Grŵp 3 Clust i wrando ar Syniadau	18	16	12	5	-
Cysylltiadau â'r Gymuned	21	20	6	3	1
Grŵp 4: Paratoi am Arolygiad	12	15	14	9	1
Cynllun Ôl-arolygiad	7	16	14	8	6
Grŵp 5: Rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd	4	11	14	15	5
Grŵp 6: Meysydd eraill y cwricwlwm	2	12	16	10	3
Anghenion Arbennig	7	12	17	14	2
Grŵp 7: Eraill	6	2	-	1	1

Ffigur 8: Sut mae Penaethiaid yn Dosbarthu Cyfraniad Cyrff Llywodraethu – Ysgolion Cynradd

	CADARNHAOL			*NEGYDDOL*	
	Defnyddiol Iawn	**Defnyddiol**	**Yn Gymharol Ddefnyddiol**	**Cyfyng ei Ddefnyddioldeb**	**Heb fod yn ddefnyddiol**
Grŵp 1: Cynllunio Strategol	4	12	11	2	1
Monitro & Gwerthuso	3	14	10	5	-
Gosod Targedau	3	11	9	9	-
Grŵp 2: Cynllunio/Cyngor Ariannol	6	15	7	4	1
Materion yn ymwneud â phersonél	9	13	8	2	-
Grŵp 3 Clust i wrando ar Syniadau	12	16	4	-	-
Cysylltiadau â'r Gymuned	11	12	9	1	1
Grŵp 4: Paratoi am Arolygiad	4	6	13	6	-
Cynllun Ôl-arolygiad	2	7	14	7	1
Grŵp 5: Rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd	1	4	11	11	4
Grŵp 6: Meysydd eraill y cwricwlwm	3	4	9	5	2
Anghenion Arbennig	2	6	11	12	2
Grŵp 7: Eraill	6	1	-	-	-

Ffigur 9: Sut mae Penaethiaid yn Dosbarthu Cyfraniad Cyrff Llywodraethu – Ysgolion Uwchradd

Pan fydd y Ffigurau hyn yn cael eu dangos yn ganrannau ac wedi eu gosod o dan dri phennawd – *Defnyddiol Iawn/Defnyddiol, Yn Gymharol Ddefnyddiol* ac *Yn Gyfyng ei Ddefnyddioldeb/Heb fod yn ddefnyddiol* – mae'r tebygrwydd a'r gwahaniaeth rhwng ymatebion y ddau sector yn dod yn fwy eglur. Gweler Ffigur 10 isod.

	CADARNHAOL				***NEGYDDOL***	
	Defnyddiol Iawn + Defnyddiol %		**Yn Gymharol Ddefnyddiol %**		**Cyfyng ei Ddefnyddioldeb yn Unig + Heb fod yn Ddefnyddiol %**	
	Uwchradd	**Cynradd**	**Uwchradd**	**Cynradd**	**Uwchradd**	**Cynradd**
Grŵp 1: Cynllunio Strategol, Monitro & Gwerthuso, Gosod Targedau	50	54	31	24	19	22
Grŵp 2: Cynllunio/Cyngor Ariannol, Materion yn ymwneud â Phersonél	67	65	23	17	10	18
Grŵp 3: Clust i Wrando ar syniadau, Cysylltiadau â'r Gymuned	77	74	20	17	3	9
Grŵp 4: Paratoi am Arolygiad, Cynllun ôl-arolygiad	32	49	45	27	23	24
Grŵp 5: Rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd	16	30	35	29	49	41
Grŵp 6: Meysydd eraill y cwricwlwm, Anghenion arbennig	23	35	38	35	39	30

Ffigur 10: Sut mae Penaethiaid yn Dosbarthu Cyfraniad Cyrff Llywodraethu (canrannau)

Mae'r ymatebion yn Grwpiau 2 a 3 yn debyg iawn, ac mae'r grwpiau hyn yn cynnwys y gweithgarwch lle mae'r Penaethiaid o'r farn y cânt y cymorth mwyaf gan lywodraethwyr. Mae'r ymatebion yn Grŵp 1 hefyd yn debyg iawn, er yn yr achos yma mae Penaethiaid yn canfod y cânt ychydig yn llai o gymorth gan lywodraethwyr nag yng Ngrwpiau 2 a 3.

Yn y grwpiau lle mae'r sgoriau isaf (4 i 6) y mae'r gwahaniaethau mwyaf, ac ym mhob un o'r tri Grŵp mae Penaethiaid Uwchradd yn cyson ddosbarthu cymorth llywodraethwyr yn is na'u cydweithwyr yn y sector Cynradd.

Mae hefyd yn amlwg o'u hymatebion fod Penaethiaid Cynradd ac Uwchradd fel ei gilydd yn dosbarthu cyfraniad llywodraethwyr i reoli'r ysgol o ddydd i ddydd yn arbennig o isel. Mae hyn i'w ddisgwyl gan mai'r farn yn draddodiadol yw nad yw hwn yn faes y dylai llywodraethwyr fod yn ymwneud ag ef. Mae nifer o ymatebion ysgrifenedig yn ategu'r farn hon.

- "Ni ddylid bod disgwyl iddynt (llywodraethwyr) redeg ysgolion ac nid oes angen hynny arnom." (Pennaeth Uwchradd)

- "Fy rôl i yw hon (rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd.) (Pennaeth Uwchradd)

- "Maen nhw'n fodlon imi redeg yr ysgol a rhoi gwybodaeth iddynt." (Pennaeth Cynradd)

- "Mae'r llywodraethwyr yn ymddiried yn staff yr ysgol o ran rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd." (Pennaeth Cynradd)

Mewn nifer o ffyrdd, mae *Gosod Targedau* ac *Ymwneud â'r cynllun ôl-arolygiad* yn agweddau ar gynllunio strategol. Gall fod yn werth chweil felly i ystyried y ffigurau hyn gyda'i gilydd ynghyd â'r rhai sy'n cyfeirio'n benodol at *Cynllunio Strategol* i ystyried sut mae Penaethiaid yn dosbarthu cyfraniad llywodraethwyr i'r rôl bwysig hon. Gweler Ffigur 11 isod.

Mae'n amlwg fod ymatebion Penaethiaid Cynradd ynghylch cyfraniad llywodraethwyr yn y tri maes yma'n gyson iawn, gyda 8% yn unig o wahaniaeth rhwng yr ymateb cadarnhaol uchaf (48% yn achos *Cynllunio Strategol)* a'r isaf (40% ar gyfer *Gosod Targedau).*

Nid oes cysondeb o'r fath i'w weld yn yr ymatebion gan Benaethiaid Uwchradd, lle mae gwahaniaeth o 29% rhwng y maes sy'n cael ei ddosbarthu uchaf o ran cyfraniad llywodraethwyr (53% ar gyfer *Cynllunio Strategol)* a'r un sy'n cael ei ystyried yn isaf (29% ar gyfer y cynllun *Ôl-Arolygiad*).

	CADARNHAOL				***NEGYDDOL***	
	Defnyddiol Iawn + Defnyddiol %		**Yn Gymharol Ddefnyddiol %**		**Cyfyng ei Ddefnyddioldeb yn Unig + Heb fod yn Ddefnyddiol %**	
	Uwchradd	**Cynradd**	**Uwchradd**	**Cynradd**	**Uwchradd**	**Cynradd**
Cynllunio Strategol	53	48	37	28	10	24
Gosod Targedau	44	40	28	23	28	37
Ymwneud â'r cynllun ôl-arolygiad	29	45	45	27	26	28

Ffigur 11: Dosbarthu Cyfraniad Llywodraethwyr mewn Meysydd Penodol (canrannau)

Yn ddiddorol, mae hyn yn golygu mai cyfraniad llywodraethwyr i *Monitro a Gwerthuso* yw'r maes sy'n cael ei ddosbarthu uchaf (er nad yw mor syfrdanol â hynny) gan Benaethiaid (gweler Ffigur 12).

	CADARNHAOL				*NEGYDDOL*	
	Defnyddiol Iawn + Defnyddiol %		**Yn Gymharol Ddefnyddiol %**		**Cyfyng ei Ddefnyddioldeb yn Unig + Heb fod yn Ddefnyddiol %**	
	Uwchradd	**Cynradd**	**Uwchradd**	**Cynradd**	**Uwchradd**	**Cynradd**
Monitro a Gwerthuso	53	62	31	27	16	21

Ffigur 12: Dosbarthu o ran Monitro a Gwerthuso

Gwelwyd bod gan Benaethiaid yn y rhan fwyaf o'r ysgolion agwedd gadarnhaol at gyfraniad llywodraethwyr i wella ysgolion.

Mewn 37 ysgol yn y sector Cynradd, mae mwy o ymatebion cadarnhaol na rhai negyddol, a mwy o ymatebion negyddol na rhai cadarnhaol mewn 14 ysgol (yn ddiddorol, roedd 12 o'r ysgolion hyn â llai na 240 disgybl). Mewn 1 ysgol roedd nifer gyfartal o ymatebion cadarnhaol a negyddol.

Tebyg yw'r darlun yn y sector Uwchradd, gyda mwy o ymatebion cadarnhaol na rhai negyddol mewn 25 ysgol, a'r gwrthwyneb mewn 5 ysgol, ac mewn 3 ysgol roedd nifer gyfartal o ymatebion cadarnhaol a negyddol.

Er bod y Ffigurau hyn efallai'n peri peth pryder, mae'n werth nodi yn achos y 14 ysgol Gynradd lle mae mwy o ymatebion negyddol na rhai cadarnhaol, 17 ymateb yn unig *Heb fod yn ddefnyddiol* a gafwyd, ac yn y sector Uwchradd 10 ymateb *Heb fod yn ddefnyddiol* yn unig sydd.

Yn y sectorau Cynradd ac Uwchradd, mae mwyafrif helaeth yr ymatebion *Heb fod yn ddefnyddiol* yn gyfyngedig i 2 neu 3 ysgol.

3.1 Maint yr Ysgolion

O ystyried nifer fechan y rhai a ymatebodd, teimlid y byddai'n fwy ystyrlon i osod ysgolion mewn dau grŵp yn ôl eu maint.

Yn y sector Cynradd, o dynnu llinell ar ôl 240 disgybl, yna mae gennym grŵp o 32 ysgol "llai eu maint" (1-240 disgybl), a grŵp o 20 "mwy eu maint" (241+ disgybl).

Felly hefyd, yn y sector Uwchradd, o dynnu llinell ar ôl 1,050 disgybl, yna mae gennym un grŵp o 15 ysgolion llai eu maint (1-1,050 disgybl), a grŵp arall o 18 ysgolion mwy (1,051+ disgybl).

Mae'r canfyddiadau ar gyfer y gwahanol grwpiau hyn i'w gweld yn Ffigurau 13, 14, 15 a 16 isod.

	CADARNHAOL			*NEGYDDOL*	
	Defnyddiol Iawn	**Defnyddiol**	**Yn Gymharol Ddefnyddiol**	**Cyfyng ei Ddefnyddioldeb**	**Heb fod yn ddefnyddiol**
Grŵp 1: Cynllunio Strategol	3	11	6	9	-
Monitro & Gwerthuso	5	10	7	10	-
Gosod Targedau	2	10	8	12	-
Grŵp 2: Cynllunio/Cyngor Ariannol	8	12	4	6	1
Materion yn ymwneud â phersonél	8	13	3	7	-
Grŵp 3 Clust i wrando ar Syniadau	11	8	9	4	-
Cysylltiadau â'r Gymuned	11	14	5	2	-
Grŵp 4: Paratoi am Arolygiad	9	6	8	8	1
Cynllun Ôl-arolygiad	6	7	8	6	5
Grŵp 5: Rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd	1	8	9	11	2
Grŵp 6: Meysydd eraill y cwricwlwm	2	4	8	7	2
Anghenion Arbennig	5	5	9	10	3
Grŵp 7: Eraill	1	-	-	1	-

Ffigur 13: Canfyddiadau ar gyfer Ysgolion Cynradd Llai (1-240 disgybl ar y gofrestr)

	CADARNHAOL			***NEGYDDOL***	
	Defnyddiol Iawn	**Defnyddiol**	**Yn Gymharol Ddefnyddiol**	**Cyfyng ei Ddefnyddioldeb**	**Heb fod yn ddefnyddiol**
Grŵp 1: Cynllunio Strategol	-	7	7	-	1
Monitro & Gwerthuso	3	14	2	1	-
Gosod Targedau	2	7	4	6	1
Grŵp 2: Cynllunio/Cyngor Ariannol	7	8	3	2	-
Materion yn ymwneud â phersonél	7	6	6	1	-
Grŵp 3 Clust i wrando ar Syniadau	8	8	3	1	-
Cysylltiadau â'r Gymuned	10	6	1	1	1
Grŵp 4: Paratoi am Arolygiad	3	9	4	1	-
Cynllun Ôl-arolygiad	1	7	7	2	1
Grŵp 5: Rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd	2	4	5	4	4
Grŵp 6: Meysydd eraill y cwricwlwm	-	6	8	3	-
Anghenion Arbennig	2	9	5	4	-
Grŵp 7: Eraill	5	3	-	-	-

Ffigur 14: Canfyddiadau ar gyfer Ysgolion Cynradd Mwy (241+ disgybl ar y gofrestr)

	CADARNHAOL			*NEGYDDOL*	
	Defnyddiol Iawn	**Defnyddiol**	**Yn Gymharol Ddefnyddiol**	**Cyfyng ei Ddefnyddioldeb**	**Heb fod yn ddefnyddiol**
Grŵp 1: Cynllunio Strategol	3	4	6	1	1
Monitro & Gwerthuso	2	6	4	3	-
Gosod Targedau	1	6	2	6	-
Grŵp 2: Cynllunio/Cyngor Ariannol	5	4	4	2	-
Materion yn ymwneud â phersonél	4	6	4	1	-
Grŵp 3 Clust i wrando ar Syniadau	6	7	2	-	-
Cysylltiadau â'r Gymuned	4	4	7	-	-
Grŵp 4: Paratoi am Arolygiad	3	3	6	2	-
Cynllun Ôl-arolygiad	1	3	7	3	-
Grŵp 5: Rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd	1	3	6	2	3
Grŵp 6: Meysydd eraill y cwricwlwm	-	2	3	5	-
Anghenion Arbennig	1	4	2	8	-
Grŵp 7: Eraill	3	-	1	-	-

Ffigur 15: Canfyddiadau ar gyfer Ysgolion Uwchradd Llai (1 – 1,050 disgybl ar y gofrestr)

	CADARNHAOL			*NEGYDDOL*	
	Defnyddiol Iawn	**Defnyddiol**	**Yn Gymharol Ddefnyddiol**	**Cyfyng ei Ddefnyddioldeb**	**Heb fod yn ddefnyddiol**
Grŵp 1: Cynllunio Strategol	1	8	5	1	-
Monitro & Gwerthuso	2	8	6	2	-
Gosod Targedau	2	5	5	5	1
Grŵp 2: Cynllunio/Cyngor Ariannol	1	11	3	2	1
Materion yn ymwneud â phersonél	4	8	5	1	-
Grŵp 3 Clust i wrando ar Syniadau	6	9	2	-	-
Cysylltiadau â'r Gymuned	7	7	2	1	1
Grŵp 4: Paratoi am Arolygiad	2	3	7	4	-
Cynllun Ôl-arolygiad	1	4	6	4	1
Grŵp 5: Rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd	-	1	5	9	1
Grŵp 6: Meysydd eraill y cwricwlwm	-	2	6	-	2
Anghenion Arbennig	1	3	8	4	2
Grŵp 7: Eraill	2	2	-	-	-

Ffigur 16: Canfyddiadau ar gyfer Ysgolion Uwchradd Mwy (1,051+ disgybl ar y gofrestr)

Mae'n drawiadol yn syth o'r Ffigurau hyn fod yr ymatebion yn y sector Uwchradd yn debyg iawn yn achos ysgolion o'r ddau faint, gyda 99 ymateb cadarnhaol (*Defnyddiol iawn/defnyddiol)*, a 42 ymateb negyddol (*Cyfyng ei ddefnyddioldeb/heb fod yn ddefnyddiol)* gan ysgolion mwy, o'u cymharu â 86 ymateb cadarnhaol a 37 ymateb negyddol gan ysgolion llai.

Mae llawer mwy o wahaniaeth yn y sector Cynradd. Mae Penaethiaid ysgolion cynradd mwy yn ystyried bod llywodraethwyr yn llawer mwy defnyddiol na'u cydweithwyr mewn ysgolion llai. Yn yr achos blaenorol, mae 144 ymateb cadarnhaol o'u cymharu â 34 negyddol. Ond yn yr ysgolion llai, mae 108 ymateb cadarnhaol o'u cymharu â dim llai na 108 negyddol.

Mae'r gwahaniaeth hwn yn fwyaf amlwg mewn tri maes. Yn Grŵp 1 (*Cynllunio Strategol, Monitro a Gwerthuso,* a *Gosod Targedau)* rhoddodd yr ysgolion cynradd mwy 33 ymateb cadarnhaol a 9 negyddol, tra rhoddodd yr ysgolion cynradd llai 41 ymateb cadarnhaol a 31 negyddol.

Yn Grŵp 4, (*Paratoi ar gyfer Arolygiad* a *Cynllun Ôl-arolygiad)* rhoddodd yr ysgolion cynradd llai 20 ymateb cadarnhaol a 4 negyddol: rhoddodd yr ysgolion cynradd llai 16 ymateb cadarnhaol a 22 ymateb negyddol.

Mae'n amlwg fod y rhain yn wahaniaethau trawiadol er ei bod yn anodd nodi'r rhesymau ar sail astudiaeth fel hon. Gan ein bod yn ymdrin â niferoedd cymharol fach o ysgolion, yna gall hynodweddau nifer fach yn unig o gyrff llywodraethu ysgolion effeithio ar y canlyniadau cyffredinol. Serch hynny, mae'n demtasiwn i ystyried maint cyrff llywodraethu ysgolion llai fel un rheswm posibl am y nifer fawr o ymatebion negyddol, o gofio bod gan gyrff llywodraethu, pa faint bynnag ydyn nhw, yr un nifer o swyddi i'w cyflawni.

3.2 Hyd Gwasanaeth y Penaethiaid

Penderfynwyd gosod ymatebion y Penaethiaid mewn dau grŵp, sef 0-7 mlynedd o wasanaeth, a 8+ mlynedd o wasanaeth. Y rheswm am hyn yw nad oes unrhyw ddisgybl yn treulio mwy na saith mlynedd mewn ysgol Gynradd (Iau a Babanod) neu ysgol Uwchradd (oni bai, wrth gwrs, eu bod yn ailadrodd blwyddyn). Golyga hyn fod pob ymateb yn y categori 0-7 mlynedd gan Benaethiaid a fydd wedi gweld 4 carfan o ddisgyblion ar y mwyaf yn mynd drwy eu hysgol (Babanod), er y bydd y mwyafrif wedi gweld llai, ac mewn nifer sylweddol o achosion dim un garfan blwyddyn yn mynd drwy'r ysgol. Yn y categori 8+ mlynedd, bydd pob ymateb gan Benaethiaid a fydd wedi gweld o leiaf un garfan blwyddyn yn mynd drwy eu hysgolion.

Mae'r canfyddiadau i'w gweld yn Ffigurau 17, 18, 19 a 20 isod.

Yn y sector Uwchradd, ar y cyfan, mae'r Penaethiaid sydd â'r gwasanaeth hwyaf yn teimlo eu bod yn cael mwy o gymorth gan eu llywodraethwyr na'u cydweithwyr sydd â llai o brofiad. At ei gilydd, roedd 86 ymateb yn gadarnhaol gyda 19 yn unig yn negyddol. Anfonodd Penaethiaid yn y grŵp 0-7 mlynedd 100 ymateb cadarnhaol ond 60 negyddol.

Mae'r gwahaniaethau mwyaf i'w gweld yn Grwpiau 4 a 6. Yn yr un blaenorol, 8 ymateb cadarnhaol yn unig a roddodd y Penaethiaid mwy newydd a 12 ymateb negyddol, tra anfonodd eu cydweithwyr mwy profiadol 11 ymateb cadarnhaol a 2 negyddol. Roedd yr ymatebion yn Grŵp 6 yr un mor amlwg wahanol, gyda'r Penaethiaid â'r gwasanaeth hwyaf yn ymateb gyda 5 cadarnhaol a 4 negyddol, a'r Penaethiaid mwy newydd yn rhoi 7 ymateb cadarnhaol a 16 ymateb negyddol.

Yn y sector Cynradd, mae'r canfyddiadau'n groes i'r rhai sydd yn y sector Uwchradd. Rhoddodd Penaethiaid yn y categori 0-7 mlynedd 180 ymateb cadarnhaol a 47 negyddol, a'r Penaethiaid â'r gwasanaeth hwyaf yn rhoi 139 ymateb cadarnhaol a 86 negyddol. Yn wahanol i'w cydweithwyr yn y sector Uwchradd, mae eu gwahaniaethau mwyaf nhw i'w gweld yn Grŵp 1 a Grŵp 3. Yn yr un blaenorol, rhoddodd y Penaethiaid mwyaf newydd 43 ymateb cadarnhaol a 12 negyddol, a'r Penaethiaid â 8+ mlynedd o wasanaeth yn rhoi 30 ymateb cadarnhaol a 27 negyddol. Yn Grŵp 3 roedd gan Benaethiaid yn yr haen 0-7 mlynedd 41 ymateb cadarnhaol a 2 negyddol, a chofnododd y Penaethiaid â'r gwasanaeth hwyaf 33 ymateb cadarnhaol a 7 negyddol.

O gael ymatebion mor groes i'w gilydd yn seiliedig ar hyd gwasanaeth y Penaethiaid, mae'n amhosibl gweld unrhyw gydberthynas rhwng nifer y blynyddoedd y mae Pennaeth wedi gwasanaethu â pha mor werthfawr mae ef/hi'n ystyried cyfraniad eu corff llywodraethu i wella eu hysgol. Wrth gwrs, "cipolwg" yn unig yw'r dystiolaeth hon o farn Penaethiaid ar adeg benodol. Mae personél cyrff llywodraethu'n newid, ac mae'n bosibl iawn y bydd barn Pennaeth am werth eu cyfraniad yn newid wrth i'r aelodau newid.

	CADARNHAOL			*NEGYDDOL*	
	Defnyddiol Iawn	**Defnyddiol**	**Yn Gymharol Ddefnyddiol**	**Cyfyng ei Ddefnyddioldeb**	**Heb fod yn ddefnyddiol**
Grŵp 1: Cynllunio Strategol	1	11	6	2	-
Monitro & Gwerthuso	4	13	3	4	-
Gosod Targedau	3	11	4	6	-
Grŵp 2: Cynllunio/Cyngor Ariannol	8	8	3	3	-
Materion yn ymwneud â phersonél	8	8	5	2	-
Grŵp 3 Clust i wrando ar Syniadau	11	9	2	2	-
Cysylltiadau â'r Gymuned	11	10	4	-	-
Grŵp 4: Paratoi am Arolygiad	8	7	4	2	-
Cynllun Ôl-arolygiad	4	9	5	3	2
Grŵp 5: Rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd	2	9	6	5	2
Grŵp 6: Meysydd eraill y cwricwlwm	-	8	5	7	-
Anghenion Arbennig	3	9	5	6	1
Grŵp 7: Eraill	5	-	-	-	-

Ffigur 17: Penaethiaid Cynradd â 0 – 7 mlynedd o wasanaeth

	CADARNHAOL			*NEGYDDOL*	
	Defnyddiol Iawn	**Defnyddiol**	**Yn Gymharol Ddefnyddiol**	**Cyfyng ei Ddefnyddioldeb**	**Heb fod yn ddefnyddiol**
Grŵp 1: Cynllunio Strategol	2	7	8	1	1
Monitro & Gwerthuso	3	7	4	5	-
Gosod Targedau	1	6	5	6	1
Grŵp 2: Cynllunio/Cyngor Ariannol	4	6	5	3	1
Materion yn ymwneud â phersonél	5	8	4	2	-
Grŵp 3 Clust i wrando ar Syniadau	7	9	3	-	1
Cysylltiadau â'r Gymuned	6	7	4	1	1
Grŵp 4: Paratoi am Arolygiad	3	1	6	5	-
Cynllun Ôl-arolygiad	1	3	6	6	1
Grŵp 5: Rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd	1	2	6	6	3
Grŵp 6: Meysydd eraill y cwricwlwm	-	3	4	4	1
Anghenion Arbennig	-	4	3	10	1
Grŵp 7: Eraill	2	2	-	-	-

Ffigur 18: Penaethiaid Uwchradd â 0 – 7 mlynedd o wasanaeth

	CADARNHAOL			***NEGYDDOL***	
	Defnyddiol Iawn	**Defnyddiol**	**Yn Gymharol Ddefnyddiol**	**Cyfyng ei Ddefnyddioldeb**	**Heb fod yn ddefnyddiol**
Grŵp 1: Cynllunio Strategol	2	7	6	7	1
Monitro & Gwerthuso	4	10	6	7	-
Gosod Targedau	1	6	8	11	1
Grŵp 2: Cynllunio/Cyngor Ariannol	7	11	4	4	1
Materion yn ymwneud â phersonél	7	10	5	5	-
Grŵp 3 Clust i wrando ar Syniadau	8	6	10	3	-
Cysylltiadau â'r Gymuned	9	10	3	3	1
Grŵp 4: Paratoi am Arolygiad	4	8	8	6	1
Cynllun Ôl-arolygiad	3	5	10	5	4
Grŵp 5: Rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd	2	3	8	9	4
Grŵp 6: Meysydd eraill y cwricwlwm	2	2	12	2	2
Anghenion Arbennig	4	5	10	6	2
Grŵp 7: Eraill	1	3	-	1	-

Ffigur 19: Penaethiaid Cynradd â mwy na 7 mlynedd o wasanaeth

	CADARNHAOL			*NEGYDDOL*	
	Defnyddiol Iawn	**Defnyddiol**	**Yn Gymharol Ddefnyddiol**	**Cyfyng ei Ddefnyddioldeb**	**Heb fod yn ddefnyddiol**
Grŵp 1: Cynllunio Strategol	2	6	3	1	-
Monitro & Gwerthuso	1	7	6	-	-
Gosod Targedau	2	5	2	5	-
Grŵp 2: Cynllunio/Cyngor Ariannol	2	9	2	1	-
Materion yn ymwneud â phersonél	4	6	4	-	-
Grŵp 3 Clust i wrando ar Syniadau	5	7	1	-	-
Cysylltiadau â'r Gymuned	5	4	5	-	-
Grŵp 4: Paratoi am Arolygiad	1	5	7	1	-
Cynllun Ôl-arolygiad	1	4	7	1	-
Grŵp 5: Rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd	-	2	5	5	1
Grŵp 6: Meysydd eraill y cwricwlwm	-	1	5	1	1
Anghenion Arbennig	2	2	8	1	1
Grŵp 7: Eraill	3	-	-	-	-

Ffigur 20: Penaethiaid Uwchradd â mwy na 7 mlynedd o wasanaeth

3.3 Nifer a Math y Pwyllgorau

O gofio nifer gymharol fach yr ysgolion a ystyrir yn yr astudiaeth hon a'r amrywiaeth mawr o ran niferoedd a mathau'r pwyllgorau a ddefnyddir gan wahanol gyrff llywodraethu ysgolion, mae'n amhosibl gwneud unrhyw sylwadau ystyrlon am y gydberthynas rhwng pwyllgorau cyrff llywodraethu a chyfraniad llywodraethwyr i wella ysgolion.

3.4 Ysgolion Cyfrwng Cymraeg ac Ysgolion Gwirfoddol

Roedd nifer yr ymatebion o ysgolion cyfrwng Cymraeg a Gwirfoddol mor fach fel bod cyffredinoli'n ddiystyr.

3.5 Ystod

Mae'n amlwg nad yw Penaethiaid fel arfer o'r farn fod cyfraniad cyrff llywodraethu yr un fath ym mhob un o'r meysydd a restrir yn yr holiadur. Mewn un ysgol, er enghraifft, gall Pennaeth fod o'r farn fod cyfraniad llywodraethwyr i wella'r ysgol yn *Ddefnyddiol* mewn pum maes, *Yn gymharol ddefnyddiol* mewn 2 faes, ac *Yn gyfyng ei ddefnyddioldeb* mewn 4 maes, ac felly tri fyddai nifer y categorïau sydd wedi eu cynnwys yn yr enghraifft hon. Gall Pennaeth arall ystyried bod cyfraniad llywodraethwyr yn *Ddefnyddiol* mewn 9 maes a *Heb fod o ddefnydd* mewn 2, ac felly 2 fyddai nifer y categorïau sydd wedi'u cynnwys yma.

Mae ffigurau 21 a 22 isod yn dangos ystod y gwahanol ymatebion:

	Nifer o gategorïau sy'n cael eu cynnwys yn yr ymatebion				
	5	**4**	**3**	**2**	**1**
Nifer y Penaethiaid	4	11	26	8	3

Ffigur 21: Penaethiaid Cynradd

	Nifer o gategorïau sy'n cael eu cynnwys yn yr ymatebion				
	5	**4**	**3**	**2**	**1**
Nifer y Penaethiaid	2	16	10	5	0

Ffigur 22: Penaethiaid Uwchradd

Yn ogystal â'r gwahaniaethau yn nifer y categorïau yn ymateb pob Pennaeth i'r holiadur, mae ystod fawr hefyd o ran y sgôr y mae Penaethiaid yn ei roi i gyfraniad cyrff llywodraethu i wella

ysgolion. Ymysg Penaethiaid Cynradd, er enghraifft, y sgôr uchaf am gyfraniad corff llywodraethu yw 11 *Defnyddiol Iawn*, heb i unrhyw gategorïau eraill gael eu ticio; y sgôr uchaf am gorff llywodraethu cynradd yw 4 *Heb fod yn Ddefnyddiol,* 6 *Yn gyfyng ei ddefnyddioldeb* a 1 *Defnyddiol.* Yn y sector Uwchradd, y sgôr uchaf yw 9 *Defnyddiol iawn* a 2 *Defnyddiol,* a'r sgôr isaf yw 7 *Heb fod yn Ddefnyddiol*, 2 *Yn gyfyng ei ddefnyddioldeb* a 2 *Cymharol ddefnyddiol.*

Mae'r ystod yma o ymatebion wedi ei chefnogi gan nifer o ddyfyniadau:

- "Mae cyrff llywodraethu ysgolion yn rhy fawr, a phrin yw eu hamgyffred o natur rhedeg ysgol." (Pennaeth Cynradd)

- "Mae gen i gorff llywodraethu gwych a chefnogol, ond nid ydyn nhw'n gwybod am y materion diweddaraf ym myd addysg … ac mae disgwyl imi eu harwain nhw." (Pennaeth Cynradd)

- "Mae gennym gorff llywodraethu cefnogol iawn sy'n chwarae rhan weithgar iawn yn yr ysgol ac sy'n gallu ein cefnogi ni ym mhob maes." (Pennaeth Cynradd)

- "Corff llywodraethu sy'n rhoi llawer o help gyda chryn dipyn o arbenigedd personol. Maen nhw bob amser yn cyflwyno agweddau newydd ac amrywiol ar bynciau." (Pennaeth Cynradd)

- "Grŵp o bobl sy'n rhoi cymorth a chefnogaeth." (Pennaeth Uwchradd)

- "Mae'r rhai sy'n mynychu'n eiddgar, ond heb fod yn alluog iawn." (Pennaeth Uwchradd)

3.6 Llwyth Gwaith Cyrff Llywodraethu

Er nad yw'r astudiaeth hon wedi rhoi unrhyw ystadegau o ran llwyth gwaith cyrff llywodraethu, mae'n amlwg o'u sylwadau fod nifer o Benaethiaid o'r farn y disgwylir gormod gan lywodraethwyr. Mae rhai o'u sylwadau wedi eu rhestru isod:

- "Mae'r rhan fwyaf o lywodraethwyr yn bobl brysur a rhywfaint o amser yn unig sydd ganddynt i'w neilltuo i'r ysgol." (Pennaeth Uwchradd)

- "Corff o bobl alluog iawn sy'n herio'n adeiladol OND pa mor rhesymol yw'r amser a ddisgwylir i lywodraethwyr ei roi?" (Pennaeth Uwchradd)

- "Mae llawer yn teimlo bod angen gormod o ymrwymiad i fod yn llywodraethwr." (Pennaeth Cynradd)

- "Teimlaf fod disgwyl gormod ganddyn nhw (llywodraethwyr) o ran eu cyfrifoldebau a'r amser y mae disgwyl iddynt ei roi i ysgol." (Pennaeth Cynradd)

- "Gall y cyfrifoldebau sy'n cael eu llwytho ar lywodraethwyr fod yn fygythiol iawn iddyn nhw." (Pennaeth Cynradd)

4 CASGLIADAU

1 Ar y cyfan, mae Penaethiaid yn teimlo bod cyrff llywodraethu yn ddefnyddiol wrth wneud gwelliannau yn eu hysgolion.

2 Nid yw cyrff llywodraethu mor effeithiol ym mhob maes. Canfyddir bod eu cyfraniad yn lleiaf defnyddiol yn y meysydd hynny y byddai rhywun yn eu disgwyl, sef rheoli ysgol o ddydd i ddydd, Anghenion Arbennig, a'r cwricwlwm. Gwelir eu bod fwyaf effeithiol wrth fod yn glust i wrando i Uwch Reolwyr ac wrth fod yn gyswllt â'r gymuned leol.

3 Rhoddodd y Penaethiaid sgôr eithaf uchel i gyrff llywodraethu am eu cyfraniad i gynllunio/cyngor ariannol a materion yn ymwneud â phersonél.

4 Er bod mwy o ymatebion cadarnhaol na rhai negyddol ym meysydd Cynllunio Strategol, Monitro a Gwerthuso, Gosod Targedau a Chynllunio Ôl-Arolygiad, mae'r sgoriau y mae Penaethiaid yn eu rhoi i gyfraniad llywodraethwyr i wella ysgolion yn y meysydd hyn yn siomedig. Mae hyn yn peri peth pryder pan ystyrir bod y meysydd hyn yn cwmpasu'r rhan fwyaf o rolau cyrff llywodraethu.

5 Mynegodd nifer o Benaethiaid bryder ynghylch llwyth gwaith trwm cyrff llywodraethu.

5 ARGYMHELLION

Er bod adborth gan Brifathrawon yn gyffredinol gadarnhaol, dengys yr ymchwil bod yna wendidau o ran mewnbwn llywodraethwyr i Gynllunio Strategol, Gosod Targedau ynghyd â Monitro a Gwerthuso. Rydym yn argymell, felly, bod AAL yn rhoii sylw pellach i sicrhau bod cyrff llywodraethu yn derbyn hyfforddiant o ansawdd dda yn y rolau craidd hyn.

Er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau, byddem hefyd yn argymell darpau hyffordiant yn y meysydd allweddol hyn ar level corff llywodraethu-gyfan. Mae sawl AAL1 eisoes yn gyfarwydd â'r dull hwn. Awgryma Canolfan Rhagoriaeth Cymru ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil sut y gellir mynd ati'n effeithiol i hyfforddi cyrff llywodraethu cyfan yn y papur *Hyfforddi Cyrff Llywodraethol: Model Dwy Haen* (2001), ac fe ddefnyddir hyn gan AAL1 Sir Fynwy ar hyn o bryd.

ATODIAD 1

CYFRANIAD CYRFF LLYWODRAETHU I WELLA YSGOLION

Enw'r Ysgol: ……

Babanod / Iau / Cynradd / 11-16 / 11-18 Nifer ar y gofrestr……

Cymunedol / Sylfaen / Gwirfoddol Cyfrwng Cymraeg IE / NAGE

Ers faint o amser rydych chi wedi bod yn Bennaeth ar yr ysgol hon? ……..b/f/mlynedd

Nodwch os yw'r nodweddion a restrir isod yn berthnasol i gorff llywodraethu eich ysgol chi:

	CADARNHAOL	**NEGYDDOL**
Pobl broffesiynol yn bennaf sydd ar y corff llywodraethu	☐	☐
Mae gennym nifer fach o lywodraethwyr sy'n hynod o alluog	☐	☐
Mae gennym nifer fach o lywodraethwyr sy'n eithriadol o weithgar	☐	☐
Mae gennym lywodraethwr/wyr AALl arbennig o gefnogol	☐	☐
Mae'r Cadeirydd yn cydweithio'n dda â'r Pennaeth	☐	☐
Mae'r Cadeirydd yn cadeirio cyfarfodydd y llywodraethwyr yn effeithiol	☐	☐
Mae gennym glerc abl ar gyfer cyfarfodydd y corff llywodraethu	☐	☐
Fel arfer rydym yn cadw'n gaeth at derfynnau amser yng nghyfarfodydd y llywodraethwyr	☐	☐
Yn anaml y mae "Unrhyw Fater Arall" yn ymddangos ar agendâu cyfarfodydd y llywodraethwyr	☐	☐
Mae agendâu cyfarfodydd y Llywodarethwyr wedi'u trefnu i wneud yn siŵr fod yr eitemau pwysicaf yn cael eu trafod yn gynnar yn y cyfarfod	☐	☐
Rydym yn cynnal cyfarfod cynllunio strategol blynyddol i'r llywodraethwyr	☐	☐
Mae llawlyfr i lywodraethwyr wedi'i gynhyrchu gan yr ysgol wedi'i anelu'n arbennig at lywodraethwyr newydd	☐	☐
Mae gennym system mentor neu gyfaill sy'n cysylltu llywodraethwyr profiadol â llywodraethwyr newydd i'w helpu wrth eu cyflwyno i'r gwaith	☐	☐
Mae llywodraethwyr unigol wedi'u cysylltu ag adrannau / cyfadrannau / meysydd cwricwlwm penodol	☐	☐

/ parhad trosodd

ATODIAD 1

Mae llywodraethwyr unigol wedi'u cysylltu â blynyddoedd penodol	☐	☐
Mae llywodraethwyr unigol wedi'u cysylltu â dosbarthiadau penodol	☐	☐
Mae Penaethiaid Adran / cydlynwyr Cwricwlwm yn rhoi cyflwyniadau i gyfarfodydd y corff llywodraethu llawn neu i gyfarfodydd pwyllgor penodol	☐	☐
Mae gennym raglen wedi'i threfnu i lywodraethwyr ymweld â'r ysgol	☐	☐

A oes unrhyw nodweddion eraill ar eich corff llywodraethu a'i waith y credwch eu bod yn cyfrannu i'w effeithlonrwydd?

……

……

……

……

……

……

.

A fyddech cystal â dychwelyd y ffurflen hon yn yr amlen barod amgaeëdig at:
S E Gullick, Cyfarwyddwr Prosiect
Canolfan Rhagoriaeth Cymru ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil,
Adran Addysg, Prifysgol Cymru Abertawe, Hendrefoelan, Abertawe SA2 7NB

Diolch yn fawr am ein helpu gyda'r ymchwil